



CREATIVITY IN THE UK

COFNODION CYFARFOD BWRDD FESTIVAL 2022 LTD

(y "Cwmni" a "Festival 2022 Ltd")

TRWY GYNHADLEDD FIDEO DYDD GWENER 23 MEDI 2022, 10:00 – 13:00

ar gyfer UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU (y "Rhaglen" ac "UNBOXED")

Yn bresennol:

Y Fonesig Vikki Heywood DBE (VH)
Amali de Alwis (AdA)
Dr. Hayaatun Sillem CBE (HS)
Faraz Tasnim (FT)
Rob Smith MBE (RS)
Dr. Maggie Aderin-Pocock MBE (MAP)
Yr Athro Andrew Thompson CBE (AT)
Priya Lakhani OBE (PL)
Liam Hannaway (LH)
Roger Lewis

Cadeirydd y Bwrdd, Cyfarwyddwr Anweithredol
Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Lloegr
Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Gogledd Iwerddon
Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Cymru

Arsylwyr y Bwrdd yn bresennol:

Nicola Hewer (NH)

Llywodraeth y DU, Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol,
Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ("DCMS")
Llywodraeth yr Alban
Llywodraeth Cymru
EventScotland

Lucy Carmichael (LC)

Gerwyn Evans (GE)

Marie Christie (MC)

Aelodau'r Bwrdd yn bresennol:

Phil Batty (PB)

Ian Reid (IR)

Bea Hendry (BH)

Lucy Bailey (LB)

Laura O'Flynn (LO'F)

Sarb Hair (SH)

Prif Swyddog Gweithredu

Prif Weithredwr a Swyddog Cyrifeg

Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol

Cyfarwyddwr Prosiect

Pennaeth Llywodraethu a Diddymu (Cofnodwr)

Cydllynydd Gweithrediadau Busnes

Gwahoddedigion yn bresennol:

Adel Al-Salloum (AAS)

Hilary O'Shaughnessy (HO's)

Jen Whatcott (JW)

Jo Ridley (JR)

Emma Cray (EC)

Adam Richard (AR)

Sarah Tromans (ST)

Holly Wade (HW)

Sareen Gosal (SG)

Pennaeth Partneriaethau Creadigol (eitemau 1-3)

Cyfarwyddwr Comisiynu (eitem 3)

Arbenigwr Symleiddio Corfforaethol, PwC (eitem 4)

Arbenigwr Symleiddio Corfforaethol, PwC (eitem 4)

Arbenigwr Symleiddio Corfforaethol a Datodwr, PwC (eitem 4)

Cyfarwyddwr, PwC (eitem 4)

Cyfarwyddwr Rheolaeth Ariannol a Rheoli Contractau (eitem 4)

Rheolwr Prosiect Diddymu (eitem 4)

Cynorthwydd Diddymu (eitem 4)

76/22 Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dr. Bridget McConnell, Richard Walsh, Louise Hyland, Martin Green, David Grady a Caroline McGrory.

Diolchodd y Cadeirydd i Lucy Carmichael a Marie Christie am fod yn bresennol i gynrychioli'r Alban.

Bu'r Bwrdd yn trafod yr ohebiaeth gyhoeddus a gyhoeddwyd gan Gadeirydd Pwyllgor Dethol y DCMS i Reolwr Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) yn gofyn i'r NAO gynnal adolygiad o'r rhaglen. Bu'r Bwrdd yn trafod y pwyslais parhaus gan Gadeirydd Pwyllgor Dethol y DCMS ar y rhaglen. Nodwyd mai'r NAO yw archwilwyr allanol penodedig Festival 2022 Ltd ac roeddent yn bresennol ymhob cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd yn ogystal â'u dyletswyddau mewn cysylltiad â'r Cyfrifon Blynnyddol. Fe wnaeth y Bwrdd ailddatgan y byddai'n llwyr gefnogi gwaith yr NAO wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau.

Cododd y Cadeirydd fater y cam-gyfleu ffigurau ymgysylltu yn y cyfryngau, yn sgil rhyddhau rhai data yn ymwneud â dim ond 8 allan o 112 o leoliadau ar gyfer gweithgareddau byw ac yn eithrio unrhyw ddata dysgu, cyfranogi, digidol neu ddarlledu. Nododd y Pwyllgor Gwaith gynlluniau i gywiro a gwrthbrofi'r data hwn yn y cyfryngau yn barhaus wrth i'r rhaglen gyrraedd diwedd glo'r gweithgaredd cyhoeddus.

Ni chododd y Bwrdd unrhyw ddatganiad o fuddiannau.

77/22 Cymeradwyo Cofnodion a Materion yn Codi

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Awst 2022 yn gofnod cywir a bydd yn cael ei lofnodi'n briodol gan y Cadeirydd yn electronig gyda chopi wedi'i olygu yn cael ei gyhoeddi ar y wefan.

Nododd y Cadeirydd fod hwn yn gyfarfod ffurfiol gydag agenda safonedig ac amser sylweddol wedi'i neilltuo ar gyfer diweddariad a myfyrdodau'r Rhaglen Greadigol ac i ddeall cyfrifoldebau ac ystyriaethau llywodraethu'r cyfarwyddwr sy'n gysylltiedig â datodiad ar ddiwedd yr ŵyl.

Hysbysodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw faterion yn codi. Cadarnhaodd LH ac AT fod eu gweithredoedd wedi'u cwblhau.

78/22 Cau Camau Effeithiolrwydd y Bwrdd

Nododd y Cadeirydd fod holl Gamau Effeithiolrwydd y Bwrdd wedi'u cau ac eithrio adolygiad y Bwrdd o'r amcanion gwreiddiol sydd wedi'i gynnwys yn y blaengynllun ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

Cofnododd PB ei ddiolch i LOF am y gwaith a wnaed ar hyn.

79/22 Diweddariad Diogelu

Derbyniwyd y papur yn ddi-gwestiwn a throsglwyddwyd y Gadair i AAS.

Tynnodd AAS sylw at brif feysydd y papur. Cafwyd diweddariad gan AAS yn nodi fod y broses wedi'i hadolygu'n ddiweddar i adlewyrchu'r cyfrifoldebau diweddaraf a'r integreiddio pellach gyda phrosesau diogelu'r Comisiynau ei hunain. Mae Colin Jones (Arbenigwr Diogelu ar y Gemau) yn parhau i gael ei gyflogi i gefnogi UNBOXED fel ymgynghorydd. Hyd yma, nid oes unrhyw bryderon i'w hadrodd i'r Bwrdd.

Teimlai'r Bwrdd fod proses drylwyr ar waith a derbyniodd y dylai hyn ac y byddai hyn yn aros yn oren i bwysleisio pwysigrwydd bod yn effro i'r risg. Gofynnodd y Bwrdd a

oedd diogelu yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth o fewn y timau a sicrhodd AAS ei fod wedi'i blethu'n agos â'r adran AD a llesiant, ac mae pob un wedi ymrwymo i gyflawni arfer gorau. Roedd y Bwrdd yn falch o gael yr adroddiad gan ddiolch i AAS.

Ymunodd MAP â'r cyfarfod.

80/22 Diweddariad Gweithredol

Gwahoddodd y Cadeirydd PB (derbyniwyd y papur yn ddi-gwestiwn) i roi diweddariad.

Cadarnhaodd PB y byddai swyddogaeth MG o fewn y rhaglen yn dod i ben fel y cytunwyd ar 29 Medi, ond byddai'n bresennol yn y ffrwd fyw GALWAD ar 2 Hydref a digwyddiadau priodol eraill. Cadarnhaodd PB bod y dyddiadau terfynol ar gyfer yr holl staff wedi'u cyfleu yn unol â'r cynlluniau diddymu ar gyfer yr endid.

Tynnodd PB sylw at y ffaith bod gwaith Uwch Gynhyrchwyr a Chynhyrchwyr gyda'r rhaglen bellach yn dod i ben ym mis Ionawr er mwyn sicrhau bod yr adnodd cywir ar gael ar gyfer y gwaith gwerthuso a chasglu data. Mae rhaglen all-leoli bellach ar waith i helpu i gadw cydweithwyr ac mae'r holl recriwtio wedi'i gwblhau ar ôl defnyddio'r rhai yn gadael o fewn y Pwyllgor Trefnu.

Er y byddai adegau eraill i ddiolch yn helaeth, cofnododd y Bwrdd ei ddiolch yn ffurfiol i MG (a oedd yn bresennol yn sesiwn briffio'r cyfryngau a rhagolwg cyhoeddus SEE MONSTER adeg y cyfarfod).

Cadarnhaodd PB mai dyma fyddai cyfarfod olaf y Bwrdd i BH a diolchodd y Bwrdd i BH am ei gwaith caled a'i hymrwymiad gan ddymuno pob llwyddiant iddi.

Nododd y Bwrdd y gwaddol a'r gweithgaredd gwerthuso gan holi am yr adnodd dynol oedd ar gael yn y maes hwn. Dywedodd BH fod y Rheolwr Gwaddol ac Effaith yn parhau yn ei swydd tan fis Chwefror ac roedd wedi bod yn rhan o bob sgwrs a pherchnogaeth Cynhyrchwyr ar y gweithgaredd gwaddol o fewn y Rhaglen. Mae Pennaeth Prosiectau Strategol a Gwaddol newydd wedi'i recriwtio i gwmpasu'r maes cyflenwi hwn am weddill y rhaglen. O ran gwerthuso, PB fydd rheolwr llinell y Pennaeth Gwerthuso a bydd tîm llawn wedi ei sefydlu i gefnogi.

Gofynnodd PL i nodyn cryno ar waddol gael ei ddosbarthu ar ôl y cyfarfod yn cwmpasu'r gweithgaredd diriaethol ac anniriaethol er mwyn gallu sicrhau cyflawniad. Awgrymodd y Bwrdd hefyd fod y Pennaeth Gwerthuso yn adolygu cofnodion diweddar y Bwrdd i ddeall y naratif a'r cyfeiriad y mae'r Bwrdd yn ei ddisgwyl.

CAM GWEITHREDU: BH i roi'r gwaith o greu nodyn cryno ar waddol cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd i'r Rheolwr Gwaddol ac Effaith

CAM GWEITHREDU: BH i roi'r gwaith o adolygu cofnodion y Bwrdd i'r Pennaeth Gwerthuso er mwyn sicrhau bod y naratif gwerthuso yn glir iddo.

Atgoffodd AT fod y diffiniadau ar gyfer pob un o'r categorïau ymgysylltu blaenorol yn canolbwyntio'n drwm ar ddyfnder ymgysylltu, a byddai'r cyd-destun hwn yn hanfodol wrth gyflwyno data. Gwnaeth sylwadau'n benodol ar y categori digidol gan ei bod yn



CREATIVITY IN THE UK

bwysig cydnabod yn ein gwerthusiad nad ffigurau 'cyrhaeddiad' yn unig yw'r rhain ond profiadau diwylliannol ystyrlon.

Cytunodd AdA a gofynnodd i'r diffiniadau a'r enghreifftiau hyn gael eu mynegi'n glir. Dywedodd RL y byddai GALWAD ymysg eraill yn astudiaeth achos da o ddigidol a chreu swyddi.

Nododd y Bwrdd eu teyrngedau i'r diweddar Ei Mawrhydi'r Frenhines a thrafododd y cyfnod o Alaru Cenedlaethol. Nodwyd effaith oedi'r gweithgareddau byw a digidol yn ystod y cyfnod 10 diwrnod ac amlinellodd PB y newidiadau i weithgaredd a oedd wedi'u gweithredu yn unol â chanllawiau'r DCMS. Cofnododd NH ddiolch y DCMS mewn cysylltiad â'r cydweithio yn ystod y cyfnod hwn.

Trodd y Bwrdd at y dangosfwrdd data diweddaraf yn adolygu perfformiad o'i gymharu â'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer pob un o'r 10 comisiwn.

Nododd y Bwrdd y symudiad sylweddol yn y data fel y rhagwelwyd ar gyfer y cyfnod hwn yn y rhaglen. Nododd FT y dylai'r tîm cyfan fyfyrion ar agoriad SEE MONSTER a'r cyfan a gyflawnwyd wrth ddarparu prosiect mor uchelgeisiol a chymhleth.

Ymunodd HO'S â'r cyfarfod.

81/22 Rhaglen Greadigol – Diweddariad Cynnydd a Myfyrdodau

Gwahoddodd y Cadeirydd PB i fframio trafodaethau (derbyniwyd y papur yn ddi-gwestiwn). Cyfeiriwyd at y daflen ddata dangosyddion perfformiad allweddol ddiweddaraf drwy gydol y diweddariad hwn i lywio ac i arwain yn ychwanegol at y papur.

Dywedodd HO fod y tîm wedi bod yn gweithio gyda Culture Liverpool ac fe gadarnhaodd y byddai Our Place in Space yn agor ar 14 Hydref, ochr yn ochr â'r River of Light Festival.

Gofynnodd y Bwrdd am gadarnhad o'r dyddiad olaf ar gyfer rhaglen digwyddiadau byw UNBOXED. Cadarnhaodd PB fod digwyddiadau byw yn parhau tan 20 Tachwedd, gyda data o gyfryngau digidol, darlledu, dysgu a chyfranogiad yn parhau i gael ei ymgorffori yn y set data monitro a gwerthuso tan ddiwedd 2022. Bydd yr holl gyflawni o fis Ionawr 2023 ymlaen yn cael ei ddosbarthu'n waddol.

Cafwyd diweddariad gan HO'S yn datgan er mai PoliNations oedd y prosiect yr effeithiwyd arno fwyaf gan y cyfnod Galaru Cenedlaethol, allan o 205 o weithgareddau wedi'u cynllunio, llwyddodd y tîm i gyflawni 153 o ddigwyddiadau llai gan ddefnyddio'r ardd fel gofod myfyriol.

Bu'r Bwrdd yn trafod y cyd-destun a'r heriau o ran oedi cyn adrodd data ar rai meysydd cyflawni, yn benodol ynghylch dysgu a chyfranogiad. Cytunodd y Weithrediaeth i ymchwilio ymhellach i hyn.

Aeth HO'S ymlaen i drafod StoryTrails sydd bellach wedi dod i ben yn y BFI. Galluogodd partneriaeth BFI sefydlu arddangosfa ymgolli'r prosiect a diweddarwyd y Bwrdd ynghylch trafodaethau parhaus gydag Amgueddfa Wyddoniaeth a Chyfryngau Cenedlaethol Bradford. O ran gwaddol mae'r llyfrgelloedd partner yn cael yr offer yn rhodd ac mae'r tîm yn sicrhau bod y momentwm i'w ddefnyddio yn parhau. Bydd

digwyddiad UKRI ar 28 Medi yn dod â rhanddeiliaid a dylanwadwyr ynghyd i ddysgu mwy am y Prosiect StoryTrails.

Rhoddodd MC ddiweddariad ar Dandelion sydd wedi cwblhau ei gynllun prosiect yn llwyddiannus. Cadarnhaodd MC bod nifer fawr o weithgareddau wedi eu cynnal dros y 6 mis, gan ymgysylltu â miloedd o blant ysgol a chynulleidfaoedd ar draws yr Alban.

Dywedodd GE y byddai GALWAD yn fyw ddiwedd mis Medi a bod y rhaghybys eb eisoes yn fyw. Bu'r Bwrdd yn trafod pwysigrwydd cynnwys digidol y prosiect hwn gan annog Cyfarwyddwyr i hyrwyddo'r prosiect ar draws y cyfryngau cymdeithasol.

Nodwyd yr holl ddiweddariadau oedd yn weddill yn unol â'r adroddiad ysgrifenedig.

Diolchodd y Cadeirydd i Benaethiaid y Gwasanaethau am y diweddariadau a nododd y cynnydd.

82/22 Dysgu a Chyfranogi a Rhyngwladol – Diweddariad llawn ar Ymgysylltu Creadigol

Fframiodd AAS ei phapur a gyflwynwyd gan bwysleisio bod SEE MONSTER a'r Sioeau Symudol wedi dod yn flaenoriaeth i'w tîm i gynhyrchu dysgu a chyrraedd cyfranogiad.

Gofynnodd y Bwrdd a oedd yr adroddiad yn cyfateb â ffigurau dangosyddion perfformiad allweddol. Cadarnhaodd AAS eu bod nhw er nad oedd y ffigurau rhyngwladol wedi'u cynnwys eto. Cafwyd trafodaeth ar sicrhau eglurder gwerth wrth gyfri niferoedd unigol yn lle ddosbarth. Gofynnodd y Bwrdd am eglurhad brys ar y mater hwn. Gofynnodd NH am ddealltwriaeth bellach ar y gweithgaredd rhyngwladol a sut y byddai'n cael ei gipio yn y gwerthusiad a'r naratif. Mae BH yn gweithio gyda CC o DCMS i ystyried sut i gipio'r astudiaethau achos rhyngwladol o fewn y Llywodraeth gan weithio hefyd gyda'r tîm Economeg i wirio tystiolaeth a datblygu arolwg rhyngwladol.

Gofynnodd y Bwrdd a yw'r tîm yn cyfrannu at waith ar draws Gweriniaeth Iwerddon fel rhan o'n gweithgaredd rhyngwladol. Dywedodd AAS ein bod wedi ymgysylltu ac y byddem yn darparu diweddariad ar statws ac adborth.

Er ei fod yn cydnabod heriau o ran cael sylw athrawon a phwyslais trawsgwricwlaidd ein hasedau, anogodd HS y timau i gymryd camau nawr i sicrhau'r cyrraedd mwyaf posibl gyda'r adnodd ar gael. Dywedodd AAS fod pecynnau asedau ar gael ond eu bod wedi cael eu dal yn ôl oherwydd y cyfnod galaru. Bydd y rhain yn cael eu dosbarthu yn fuan i rwydwaith o 100 o sefydliadau'r sector megis Cymdeithas Wyddoniaeth Prydain, STEM UK, Cymdeithas Cyfarwyddwyr mewn Addysg yn yr Alban. Byddai AAS yn sicrhau bod y pecyn yn cael ei anfon ymlaen at PL er mwyn ei rannu ymhellach trwy ei chysylltiadau. Diolchodd y Bwrdd i PL am gefnogi'r niferoedd Dysgu a Chyfranogi.

Gadawodd AT, AAS a HO'S y cyfarfod.

83/22 Llinell amser diddymu lefel uchel

Ymunodd AR, JW, JR, EC, ST, HW a SG â'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd FT i fframio'r drafodaeth. Tynnodd FT sylw at bwysigrwydd diddymu fel rhan o'r llwybr allweddol ar gyfer y cwmni ac anogodd y Bwrdd i ymgysylltu'n ofalus â'r cyflwyniad.

Atgoffodd PB fod cydweithwyr ar gam uwch o ran cyflawni gweithredol ond maent yn canolbwyntio ar y cyfnod diddymu a gwerthuso ochr yn ochr â hyn a chyfeiriodd at y tri chyfnod o fewn y llinell amser. Croesawodd PB ST sef y prif arweinydd ar gyfer ymdrin â'r datodiad.

Aeth LO'F drwy'r strwythur diddymu gan ddarparu diweddariad ar bob un o'r llofoedd gwaith a cherrig milltir allweddol y prosiect.

Agorodd y cadeirydd y drafodaeth. Cydnabu'r Bwrdd yr amserlenni tynn a'r pwysau i gyflawni'r rhain. Holodd y Cadeirydd ynghylch cynrychiolaeth y Tîm Rheoli Gweithredol yn y Pwyllgor Llywio ar ôl i'r Prif Swyddog Ariannol ymadael ar ddiwedd mis Tachwedd. Cadarnhaodd IR y byddai ST yn aros yn y swydd i oruchwylio'r maes gwaith hwn ochr yn ochr â PB.

Roedd IR yn cydnabod heriau'r amserlen, ynghyd â chyflawni gweithredol a'r gofyniad na fyddai ddiddymu'r OC yn effeithio ar gynnydd o ran y gwaith sy'n weddill i gyflawni UNBOXED. Nododd fod hyn yn adlewyrchu trafodaethau a godwyd yn gynharach yn yr wythnos ym Mhwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) yr OC.

Cafodd y Pwyllgor Gwaith y dasg o arfarnu dewisiadau ar gyfer cael gwared ar risg o'r amserlen ddiddymu integredig ar gyfer yr OC ac UNBOXED, gan ddarparu diweddariad i'r ddau ARAC.

Nododd FT ei bod yn hanfodol i UNBOXED barhau i gael cefnogaeth lawn a sicrhaodd IR y byddai hyn yn digwydd. Holodd AdA ynghylch yr adnodd a rennir ac a fyddai ar gael, er enghraifft cyfreithiol, AD, Cyllid. Cadarnhaodd IR fod yr adnodd ar gyfer UNBOXED wedi'i gynnwys yn atebion gwasanaethau a rennir a gynlluniwyd tan y datodiad. Trafodwyd cyfansoddiad y Bwrdd drwydd i'r datodiad a gwnaed cyfarwyddwyr yn ymwybodol o'r llinell amser ar gyfer unrhyw ymddiswyddiadau cyn i'r broses i ddiddymu Festival 2022 Ltd ddechrau'n ffurfiol.

Gadawodd PB y cyfarfod.

84/22 Cyfrifoldebau cyfarwyddwyr ac ystyriaethau Llywodraethu

Croesawodd y Cadeirydd wahoddedigion o PwC i'r cyfarfod. Aeth EC drwy'r broses ddatod a'r llinell amser. Pwysleisiodd EC er mwyn penodi datodwr bod yn rhaid i'r Bwrdd gynnal cyfarfod i hysbysu bod y Cwmni yn barod i ddod i ben. Yna mae'n rhaid i'r mwyafrif o gyfarwyddwyr lofnodi'r datganiad solfedd sy'n hysbysu, fel cyfarwyddwyr, eu bod wedi gwneud ymholiad llawn i'r materion a gellir talu'r holl ddyledion o fewn 12 mis. Wedi hyn, mae penderfyniadau'r rhanddeiliaid yn cael eu pasio, ac mae PwC yn dod yn ddatodwyr gydag awdurdod y cyfarwyddwr yn dod i ben. Mae PwC yn hysbysebu i achredwyr ac yn ymateb.

Aeth EC ymlaen i dynnu sylw at y cosbau a hysbysu'r cyfarwyddwyr y gallant ddewis cymryd cyngor cyfreithiol annibynnol i sicrhau bod pob un yn teimlo'n gyfforddus wrth gwneud y datganiad hwnnw. Esboniwyd y llwybrau uwchgyfeirio o fewn y strwythur llywodraethu ac y byddai PwC yn gweithio'n agosach gyda'r tîm diddymu wrth symud



ymlaen i liniaru risg a helpu er mwyn bod yn y sefyllfa iawn ym mis Chwefror. Y cyngor i'r Bwrdd oedd sicrhau eu bod yn ymgysylltu â'r broses sy'n dod yn dystiolaeth pe bai unrhyw achredwyr yn gwneud hawliad.

Bu'r Bwrdd yn trafod hawliadau a chynghorodd PwC fod yr hysbysebion yn amddiffyniad i roi cyfle i hawliadau gael eu cyflwyno. Mae'r ffrâm amser yn 6 blynedd o leiaf ar ôl datodiad Cwmni.

CAM GWEITHREDU: IR/ST i wirio yswiriant atebolrwydd cyflogeion ac i ofyn i gynghorwyr yswiriant am ba hyd y mae'r cyfarwyddwyr wedi'u hyswrio yn ystod y cyfnod hwn ac ymlaen.

Mae'r archwiliad mewnol ar y gweill a dylai gefnogi'r gwaith o nodi risgiau sy'n weddill ac addasu yn unol â hynny. Gofynnodd y Bwrdd i restr lawn o risgiau gael ei drafftio ar gyfer mis Rhagfyr er mwyn galluogi pawb i weithio tuag atynt ym mis Ionawr a mis Chwefror.

Holodd y Bwrdd sut y byddai Festival 2022 Ltd yn rheoli cyflenwyr yn y cytundeb Comisiynau gan gytuno i drafod hyn yn ARAC mis Hydref.

Teimlai'r Cadeirydd fod y drafodaeth yn drylwyr ac yn galonogol ac roedd yn edrych ymlaen at weithio drwy'r broses gyda chwmni PwC.

Gadawodd AR, JW, JR, EC, ST, HW a SG y cyfarfod.

85/22 Unrhyw Fusnes Arall

Gofynnodd y Bwrdd i'r Weithrediaeth ystyried sut mae'r hyn a ddysgwyd o'r rhaglen yn cael ei ddsbarthu yn y cyfnod cyflawni terfynol yn 2023. Roedd y Cadeirydd yn teimlo y dylai trafodaethau gael eu cynnal gyda'r pedwar Partner Cyflawni Strategol i ddarganfod y ffordd orau o gyfleu'r hyn yr oedd UNBOXED yn ei olygu i bob un o'r pedair gwlad. Credai ei bod yn elfen bwysig o werthuso ar gyfer dyfodol y mathau hyn o ddigwyddiadau na ddylid ei cholli.

Myfyrdodau a sylwadau i gloi

Diolchodd y Cadeirydd i'r Bwrdd, y rhai a oedd yn bresennol a'r Weithrediaeth a'r tîm ehangach am eu cyfraniadau.

Diwedd y Cyfarfod

Daeth y cyfarfod i ben am 13:00. Cadarnhawyd mai dyddiad y cyfarfod ffurfiol nesaf yw 2 Tachwedd 2022, 10:00 – 13:30.

Dosbarthu drwy e-bost oni nodir yn wahanol:
Cyfarwyddwyr y Bwrdd
Arsylwyr y Bwrdd
Tîm Rheoli Gweithredol

Dyddiad anfonwyd at y Cadeirydd:	26 Hydref 2022
Dyddiad dychwelyd at y Gweinyddwr:	28 Hydref 2022
Dyddiad dosbarthu:	22 Tachwedd 2022